



**Yr Eglwys yng Nghymru**  
The Church in Wales  
**Esgobaeth Bangor**  
The Diocese of Bangor

**Gwasanaeth i nodi agoriad y  
Flwyddyn Gyfreithiol yng Nghymru**  
A Service to mark the opening of the  
Legal Year in Wales



**Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol  
Deiniol Sant ym Mangor**  
**Dydd Sul 9 Hydref 2022 am 11.30am**  
The Cathedral & Metropolitan Church  
of Saint Deiniol in Bangor  
Sunday 9 October 2022 at 11.30am

## Oddi wrth Is-Ddeon Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor



Dyma ddymuno croeso cynnes iawn ichi o bob cwr o Gymru a thu hwnt i Gadeirlan Deiniol Sant yma ym Mangor.

Rydych chi'n sefyll rwan lle safodd Deiniol bron i fileniwm a hanner yn ôl. Yma, yn y flwyddyn 525, bu iddo gynnull o'i gwmpas gymuned lawn ffydd, gobaith a chariad, gan godi o'i chwmpas ffens gyll – y “bangor” gwreiddiol – iddi'n gysgod ac yn noddfa.

Heddiw, o fwrdd yr allor i'n banc bwyd, rydym yn gweithio'n galed i rannu ffydd, gobaith a chariad er mwyn ein dinas a'n hesgobaeth, ac, yn awr fel eglwys archesgobol a chartref Archesgob Cymru, er mwyn yr Eglwys yng Nghrymu yn ei chyfanrwydd. Mae cynlluniau cyffrous ar y gweill i gynnal a chadw'r muriau, i harddu ein cysegrfeydd, i adlunio Corff yr Eglwys, i wasanaethu ein cymuned mewn ffyrdd newydd, ac i groesawu pererinion â lletygarwch ddyfnach – oll mewn pryd i ddathlu ein penblwydd yn fileniwm a hanner oed yn 2025.

I ddysgu mwy am ein bywyd ar y cyd yma yn y Gadeirlan, mynnwch gopi o **Buchedd Bangor**, cylchgrawn y Gadeirlan, neu gwelwch gopi digidol trwy'r côd QR.

Gweddïwn yma feunydd dros ein llyodraethwyr a'r sawl sy'n gweinyddu cyfiawnder yn ein gwlad. O'ch trugaredd, gweddïwch hefyd drosom ni.

## From the Sub-Dean of Saint Deiniol's Cathedral


May I wish you a very warm welcome from across the Wales and beyond to Saint Deiniol's Cathedral here in Bangor.

As you join us here, you stand where Deiniol stood almost a millennium and a half ago. Here, in the year 525, our founder gathered around him a community of faith, hope and love, and raised around it a hazel fence – the original “*bangor*” – for shelter and sanctuary.

Today, from our altar-table to our foodbank, we are working hard to share faith, hope and love for our city and diocese, and, now as a metropolitan church and the seat of the Archbishop of Wales, for the whole of our nation. We have exciting plans for the coming years to conserve our fabric, to beautify our sanctuaries, to refit our Nave, to serve our community in new ways, and to welcome pilgrims with a deeper hospitality, all ahead of celebrating our millennium-and-a-half anniversary in 2025.

To learn more about our common life here at the Cathedral, please pick up a copy of **Buchedd Bangor**, our Cathedral magazine, or read a digital copy via the QR code.

We pray here daily for those who govern and minister justice in our country. Of your mercy, pray also for us.



Canon Siôn B. E. Rhys Evans



Buchedd Bangor

## Addoli gyda ni heddiw

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys popeth a ddywedir ac a genir yn ystod ein haddoliad heddiw. Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrion yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo. Fodd bynnag, nid darllen neu arsylwi ydi addoli – ond gweithgaredd, a ninnau'n cymryd rhan, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynnull gyda ni ac, y tu hwnt i hynny, ochr yn ochr â llu'r nef i gyd. Dyrchefwch, felly, eich llygaid; sylwch ar liw, golau, sain, symudiad a harddwch; codwch eich llais; cyfranogwch yn yr hyn a fydd yn eich gweddwch, o roi iddo'r cyfle.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun mewn **teip trwm**. Yn ôl ein harfer mewn gwasanaethau dwyieithog, darperir cyfieithiadau o ieithoedd tramor. Mae'r cyfieithiad yn dilyn y testun gwreiddiol, a gall weithiau fod dros y dudalen. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✕. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) mewn **teip coch**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

## Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r Stiwardiaid.

## Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych bryder, cysylltwch ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

## Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur Munken, sy'n bapur ardystiedig Cradle to Cradle Certified®, o felin bapur Munkedals yn Sweden, un o'r melinau papur mwyaf cynaliadwy yn y byd.

## Cydnabyddiaethau

Atgynhychir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. | Mae'r llithoedd yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr** (1850) a'r salmyddiaeth Saesneg o **The Saint Helena Breviary** (2019). | Mae ffurfdeipiau Scilla, Sawton a Wotfard gan Ffowndri Atipo. | Mae'r llun clawr, o lwybr glowyr yn Eryri, gan Josh Kirk.

## Worshipping with us today

This booklet contains everything said and sung during our worship today. You are invited to take the booklet away with you, to reflect in your own time on the holy words it contains. However, worship is not primarily something that we read or observe – it is an activity, in which we all participate, alongside those who are gathered with us and, we believe, alongside the whole company of heaven. Be sure, therefore, to look up; to notice colour, light, sound, movement and beauty; to raise up your voice; to take your full part; to be formed and transformed.

During our worship, we say and sing together the text in **bold type**. According to our custom for bilingual services, translations into English are provided from Welsh and other languages. The translation follows the original text, and may occasionally be over the page. We may make a sign of the Cross at times when the words are marked with ✠. Other directions (rubrics) are offered in **red type**; if you find it more comfortable to sit rather than stand or kneel, please do so.

## Accessibility

A hearing loop is in use – please set hearing aids to the T setting.

Lavatories are located at the east end of the Cathedral, through the door to the left of the Quire screen.

If we need to evacuate the Cathedral in an emergency, please remain seated and follow the directions of the Stewards.

## Safeguarding


Safeguarding children and adults at risk is vital, and we are committed to fostering an environment where everyone is able to worship and participate in the life of Saint Deiniol's Cathedral in safety. If you have any concerns, raise them immediately with a member of the Cathedral team.

## Sustainability and permissions

We use Munken paper, which is Cradle to Cradle Certified®, from the Munkedals paper mill in Sweden, one of the most sustainable paper mills in the world.

## Acknowledgements

Material in this order of service is reproduced under the CLL 280874. | The lessons are based on **The New Revised Standard Version of the Bible** and **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. The Welsh-language psalmody refrain is from Nicander, **Y Psallwyr** (1850); the English-language psalmody is that of **The Saint Helena Breviary** (2019). | The Scilla, Sawton and Wotfard typefaces are by Atipo Foundry. | The cover photograph, of a miners' trail in Snowdonia, is by Josh Kirk.



**Codwn ar ein traed ar gandiad y gloch**

## Gwahoddiad

### **Is-Ddeon Cadeirlan Deiniol Sant**

Canon Siôn B. E. Rhys Evans

**G**aredigion yng Nghrist, boed i ni, ar ddechrau'r flwyddyn gyfreithiol hon yn Nghymru, yn ddyletswydd a'n ofal i gynnull ger bron Duw i adnewyddu ein hymrwymiad i wasanaethu ein Coron a'n gwlad er lles cyfiawnder.


Yng ngeiriau'r Ysgrythur Lân a myfyrdodau ein calonnau a'n meddyliau, boed inni heddiw, yn weinyddwyr cyfiawnder, roi cyfrif o'n teyrngarwch ac adfer ein galwedigaeth gerbron Duw, sy'n ein canfod a'n hadnabod, sy'n dirnad ein meddyliau oddi bell.

Ond yn gyntaf, gweddiwn dros Ei Fawrhydi Y Brenin, am hygredd ein bywyd dinesig, a thros fywiogrwydd Rheolaeth y Gyfraith yn ein tir; fel y bydded llywodraethu ein cenhedloedd yn unol ag amcanion grasol Crist.

Gweddiwn yn arbennig dros bawb sy'n gwneuthur ac yn gweinyddu'r gyfraith yn ein seneddau a'n llysoedd, a thros bawb yn ein cymunedau sy'n cadw trefn, yn cynnal y drylliedig, ac adeiladu'n bywyd ar y cyd; fel y bydded i ffyrdd ffydd, gobaith a chariad fod yn hysbys yn ein ymddiddan, ein penderfynu a'n buchedd.

I gloi, gweddiwn dros bawb sydd ag angen dybryd am gyfiawnder – dros ddiodefswyr a goroeswyr, dros y diamddiffyn a'r rhai sy'n cael eu herlid; a thros y rhai hefyd yn y fantol ac yn feichus felly; fel, trwy ffyrdd cyfiawn a thrugarog, y bydded tro ar y galon ac adferiad i lwybrau da doethineb yn ein dydd.

Bydded inni offrymu'r gweddiâu a'r deisyfiadau hyn yn ostyngedig ger bron Duw yn y geiriau y mae Crist, ein Barnwr ni oll, wedi eu dysgu i ni. Pob un yn ein hiaith ein hunain, cyd-weddiwn.



# Gathering

We stand as the bell is rung

## Bidding

### **The Sub-Dean of Saint Deiniol's Cathedral**

Canon Siôn B. E. Rhys Evans

**B**eloved in Christ, be it, at the beginning of this legal year in Wales, our duty and care to gather in the presence of God to renew our commitment to the service of our Crown and country in the cause of justice.

In the words of Holy Scripture and in the reflections of our hearts and minds, let us as ministers of justice this day give account of our allegiance and restore our vocation before God, who searches us out and knows us, who who discerns our thoughts from afar.

But first, let us pray for His Majesty The King, for the integrity of our civic life, and for the vitality of the Rule of Law in our land; that our nations may be governed according to Christ's gracious purposes.

Let us specially pray for all who make and administer the law in our parliaments and courts, and for all in our communities who maintain the peace, uphold the broken, and build up the common good; that the ways of faith, hope and love may be know in our deliberating, our deciding and our daily lives.

Lastly, let us pray for all who have pressing need of justice – for victims and survivors, for the vulnerable and the persecuted; and for those, too, who shall be weighed and found wanting; that, with righteousness and mercy, the hearts of all may be turned and restored to the wisdom of the just and the paths of the good.

These prayers and supplications let us humbly offer up to God in the words that Christ, the Judge of all, has taught us. Each in our own language, let us pray.

**E**in Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw, deled dy deyrnas, gwneler dy ewylllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd.  
Amen.

Parhawn ar ein traed i ganu

## Emyn

**D**uw sydd gariad, caned daear,  
Duw sydd gariad, moled nef,  
boed i'r holl greadigaeth eilio  
cân o fawl i'w enw ef;  
hwn osododd seiliau'r ddaear  
ac a daenodd dir a môr,  
anadl pob creadur ydyw,  
gariad bythol, Duw ein lôr.

God is Love; and love enfolds us,  
all the world in one embrace:  
with unfailing grasp God hold us,  
ev'ry child of ev'ry race.  
And when human hearts are breaking  
under sorrow's iron rod,  
then we find that selfsame aching  
deep within the heart of God.

God is Love; and though in weakness  
sin afflicts all earthly life,  
God's eternal loving kindness  
guides us through our mortal strife.  
Sin and death and hell shall never  
o'er us final triumph gain;  
God is Love, so Love for ever  
o'er the universe must reign.

### Geiriau

Timothy Rees (1874-1939)

### Cyfieithiad

Hywel M. Griffiths

### Cerddoriaeth | "Blaenwern"

William Penfro Rowlands (1860-1937)



**O**ur Father who art in heaven, hallowed be thy name,  
thy kingdom come, thy will be done, on earth as it is in  
heaven. Give us this day our daily bread. And forgive us  
our trespasses as we forgive those who trespass against  
us. And lead us not into temptation, but deliver us from evil. For  
thine is the kingdom, the power and the glory, for ever and ever.  
**Amen.**

We remain standing to sing

## Hymn

**D**uw sydd gariad, caned daear,  
Duw sydd gariad, moled nef,  
boed i'r holl greadigaeth eilio  
cân o fawl i'w enw ef;  
hwn osododd seiliau'r ddaear  
ac a daenodd dir a môr,  
anadl pob creadur ydyw,  
gariad bythol, Duw ein lôr.

**God is Love; and love enfolds us,  
all the world in one embrace:  
with unfailing grasp God hold us,  
ev'ry child of ev'ry race.  
And when human hearts are breaking  
under sorrow's iron rod,  
then we find that selfsame aching  
deep within the heart of God.**

**God is Love; and though in weakness  
sin afflicts all earthly life,  
God's eternal loving kindness  
guides us through our mortal strife.  
Sin and death and hell shall never  
o'er us final triumph gain;  
God is Love, so Love for ever  
o'er the universe must reign.**

### **Words**


Timothy Rees (1874-1939)

### **Translation**

Hywel M. Griffiths

### **Music | "Blaenwern"**

William Penfro Rowlands (1860-1937)



## Eisteddwn

## Darlleniad

### Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Burnett o Maldon


Darlleniad o Lyfr y Proffwyd Micha.

**F**el hyd y dywed y Sanctaidd Un: Yn y dyddiau diwethaf bydd mynydd tŷ'r Bythol Un wedi ei osod ar ben y mynyddoedd ac yn uwch na'r bryniau. Dylifa'r bobloedd ato, a daw cenedloedd lawer, a dweud, "Dewch, esgynnwn i fynydd yr Bywiol Un, i deml Duw Jacob, er mwyn i Dduw ddysgu inni ffyrdd sancteiddrwydd ac i ninnau rodio yn y llwybrau bythol." Oherwydd o Seion y daw'r gyfraith, a gair y Sanctaidd Un o Gaersalem. Bydd y Bywiol Un yn barnu rhwng cenedloedd, ac yn torri'r ddadl i bobloedd cryfion o bell; byddant hwy'n curo'u cleddyfau'n geibiau, a'u gwaywffyn yn grymanau. Ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl, ac ni ddysgant ryfel mwyach; a bydd pob un yn eistedd dan eu gwinwydden a than eu ffigysbren, heb neb i'w dychryn. Oherwydd genau Duw y Lluoedd a lefarodd.

Clywch air bywyd i'n byd.

**Diolch a fo i Dduw.**

**Micha 4:1-4**



We sit

## Reading

### **The Lord Chief Justice of England and Wales**

The Right Honourable The Lord Burnett of Maldon

A reading from the Book of the Prophet Micah.

**T**hus says the Holy One: In days to come the mountain of the Eternal One's house shall be established as the highest of the mountains, and shall be raised up above the hills. Peoples shall stream to it, and many nations shall come and say: "Come, let us go up to the mountain of God, to the house of the Living One of Jacob; that God may teach us holy ways and that we may walk in eternal paths." For out of Zion shall go forth instruction, and the word of the Holy One from Jerusalem. The Eternal One shall judge between many peoples, and shall arbitrate between strong nations far away; they shall beat their swords into ploughshares, and their spears into pruning-hooks; nation shall not lift up sword against nation, neither shall they learn war any more; but they shall all sit under their own vines and under their own fig trees, and no one shall make them afraid; for the mouth of the God of Hosts has spoken.

Hear the word of life to the world.

**Thanks be to God.**

**Micah 4:1-4**

## Motét

Ofn yr Arglwydd yw dechrau doethineb, ac adnabod y Sanctaidd yw deall. Oherwydd trwof fi y cynyddu dy ddyddiau, ac yr ychwanegir blynyddoedd at dy fywyd. Gwyn ei fyd y sawl a gafodd ddoethineb, a'r un sy'n berchen deall. Y mae'n fwy gwerthfawr na gemau, ac nid yw dim a ddymuni yn debyg iddi. Ymddiried yn llwyr yn yr Arglwydd, a phaid â dibynnu ar dy ddeall dy hun. Cydnabyddu ef yn dy holl ffyrdd, bydd ef yn sicr o gadw dy lwybrau'n union.

### Geiriau

Diarhebion 9:10-11; 3:13, 15, 5-6

### Cerddoriaeth

William Matthias (1934-1992)

## Darlleniad

### Barnwr Llywyddol Cymru

Yr Anrhydeddus Mrs Ustus Jefford DBE

Darlleniad o Lythyr yr Apostol Paul at y Galatiaid.

**G**aredigion: Os caiff rhywun ei ddal mewn rhyw drosedd, eich gwaith chwi, y rhai ysbrydol, yw ei adfer mewn ysbryd addfwyn. Ond edrych atat dy hun, rhag ofn i tithau gael dy demtio. Cariwch feichiau eich gilydd, ac felly fe gyflawnwch Gyfraith Crist. Oherwydd, os yw rhywun yn tybio ei fod yn rhywbeth, ac yntau yn ddim, ei dwyllo ei hun y mae. Y mae pob un i farnu ei waith ei hun, ac yna fe gaiff le i ymffrostio o'i ystyried ei hun yn unig, ac nid neb arall. Oherwydd bydd gan bob un ei bwn ei hun i'w gario. Y mae'r sawl sy'n cael ei hyfforddi yn y gair i roi cyfran o'i holl feddiannau i'w hyfforddwr. Peidiwch â chymryd eich camarwain; ni chaiff Duw mo'i watwar, oherwydd beth bynnag y mae rhywun yn ei hau, hynny hefyd y bydd yn ei fedi. Bydd y sawl sy'n hau i'w gnawd ei hun yn medi o'i gnawd lygredigaeth, a'r sawl sy'n hau i'r Ysbryd yn medi o'r Ysbryd fywyd tragwyddol. Peidiwn â blino ar wneud daioni, oherwydd cawn feddi'r cynhaeaf yn ei amser, dim ond inni beidio â llaesu dwylo. Felly, tra bydd amser gennym, gadewch inni wneud da i bawb, ac yn enwedig i'r rhai sydd o deulu'r ffydd.

Clywch air bywyd i'n byd.

**Diolch a fo i Dduw.**

**Galatiaid 6:1-10**

## Motet

The fear of the Lord is the beginning of wisdom: and the knowledge of the holy is understanding. For by me thy days shall be multiplied, and the years of thy life shall be increased. Happy is the man that findeth wisdom, and the man that getteth understanding. She is more precious than rubies: and all the things thou canst desire are not to be compared unto her. Trust in the Lord with all thine heart; and lean not unto thine own understanding. In all thy ways acknowledge him, and he shall direct thy paths.

### **Words**

Proverbs 9:10-11; 3:13, 15, 5-6

### **Music**

William Matthias (1934-1992)

## Reading

### **Presiding Judge of Wales**

The Honourable Mrs Justice Jefford DBE

A reading from the Letter of Saint Paul to the Galatians.

**D**eary beloved: If anyone is detected in a transgression, you who have received the Spirit should restore such a one in a spirit of gentleness. Take care that you yourselves are not tempted. Bear one another's burdens, and in this way you will fulfil the law of Christ. For if those who are nothing think they are something, they deceive themselves. All must test their own work; then that work, rather than their neighbour's work, will become a cause for pride. For all must carry their own loads. Those who are taught the word must share in all good things with their teacher. Do not be deceived; God is not mocked, for you reap whatever you sow. If you sow to your own flesh, you will reap corruption from the flesh; but if you sow to the Spirit, you will reap eternal life from the Spirit. So let us not grow weary in doing what is right, for we will reap at harvest time, if we do not give up. So then, whenever we have an opportunity, let us work for the good of all, and especially for those of the family of faith.

Hear the word of life to the world.

**Thanks be to God.**

**Galatians 6:1-10**

## Motét

Cenwch lafar gân i'r Arglwydd Dduw, wledydd byd. Dewch dan lawen floeddio, plygwch lin o'i flaen ef dan ganu. Ef, chwi wyddoch, ef sydd yn Dduw; nid ni greodd ni'n hunain, ond ef a'n gwnaeth ni; ei bobol ef ym ni a phreiddiau ei borfa. O dewch i mewn i'w byrth gyda diolch, i gyntedd ei dŷ â mawl. Rhowch ddiolch ido ef, bendithiwch Dduw. Canys da yw'r lôr; ei ras sydd o dragwyddoldeb ac fe saif gwirionedd dwyfol trwy yr oesau. Boed gogoniant i'n Harglwydd, ac i'w Fab, ac i'r Ysbryd Glân; fel yr odd yn y dechreuad, y mae ac y bydd hyd byth, i barhau mwy. Amen.

### Geiriau

Salm 100

### Cerddoriaeth

Dilys Elwyn-Edwards (1918-2012)

**Codwn ar ein traed, gan droi i wynebu Llyfr yr Efengylau yng Nghorff yr Eglwys**

## Efengyl

### Canon Primus Cadeirlan Deiniol Sant

Canon Tracy Jones



Y Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.

R Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.

Y Meddai Iesu wrtho, "Beth sy'n ysgrifenedig yn y Gyfraith? Beth a ddarlleni di yno?"

R Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.

Y Atebodd yntau, "'Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl nerth ac â'th holl feddwl, a châr dy gymydog fel ti dy hun.'"

R Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.

Y Meddai ef wrtho, "Atebaist yn gywir; gwna hynny, a byw fyddi."

R Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.

# Motet

May all lands be joyful before you, O God, serve with gladness and come before your presence with a song. For we know that you are God; you yourself have made us, and we are yours; we are your people and the sheep of your pasture. We shall enter your gates with thanksgiving, go into your courts with praise, give thanks to you and call upon your Name. For you are good; your mercy is everlasting; and your faithfulness endures from age to age. Amen.

**Words**

Psalm 100

**Music**

Dilys Elwyn-Edwards (1918-2012)

We stand, turning to face the Book of the Gospels in the Nave

# Gospel

**The Canon Primus of Saint Deiniol's Cathedral**

Canon Tracy Jones



∇ Alleluia. Alleluia. Alleluia.

℣ **Alleluia. Alleluia. Alleluia.**

∇ Jesus said to him, "What is written in the law? What do you read there?"

℣ **Alleluia. Alleluia. Alleluia.**

∇ He answered, "'You shall love the Holy One your God with all your heart, and with all your soul, and with all your strength, and with all your mind; and your neighbour as yourself.'"

℣ **Alleluia. Alleluia. Alleluia.**

∇ Jesus said to him, "You have given the right answer; do this, and you will live."

℣ **Alleluia. Alleluia. Alleluia.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

## **A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✠ Sant Luc.

### **Gogoniant i ti, O Grist.**

**B**ryd hynny: Dyma un o athrawon y Gyfraith yn codi i roi prawf ar Iesu, gan ddweud, "Athro, beth a wnaif i etifeddu bywyd tragwyddol?" Meddai Iesu wrtho, "Beth sy'n ysgrifenedig yn y Gyfraith? Beth a ddarlleni di yno?" Atebodd yntau, "'Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl nerth ac â'th holl feddwl, a châr dy gymydog fel ti dy hun.'" Meddai ef wrtho, "Atebaist yn gywir; gwna hynny, a byw fyddi." Ond yr oedd ef am ei gyfiawnhau ei hun, ac meddai wrth Iesu, "A phwy yw fy nghymydog?" Atebodd Iesu, "Yr oedd rhyw ddyn yn mynd i lawr o Jerwsalem i Jericho, a syrthiodd i blith lladron. Wedi tynnu ei ddillad oddi amdano a'i guro, aethant ymaith, a'i adael yn hanner marw. Fel y digwyddodd, yr oedd offeiriad yn mynd i lawr ar hyd y ffordd honno; pan welodd ef, aeth heibio o'r ochr arall. Yr un modd daeth Lefiad hefyd at y man; gwelodd ef, ac aeth heibio o'r ochr arall. Ond daeth teithiwr o Samariad ato; pan welodd hwn ef, tosturiodd wrtho. Aeth ato a rhwymo ei glwyfau, gan arllwys olew a gwin arnynt; gosododd ef ar ei anifail ei hun, a'i arwain i lety, a gofalu amdano. Trannoeth tynnodd ddau ddarn arian allan a'u rhoi i'r gwesteiwr, gan ddweud, 'Gofala amdano. Os byddi wedi gwario rhywbeth dros ben, fe dalaf fi yn ôl iti pan ddychwelaf.' P'run o'r tri hyn, dybi di, fu'n gymydog i'r dyn a syrthiodd i blith lladron?" Meddai ef, "Yr un a gymerodd drugaredd arno." Ac meddai Iesu wrtho, "Dos, a gwna dithau yr un modd."

Dyma Efengyl ein Gwardedwr.

### **Moliant i ti, O Grist.**

**Luc 10:25-37**

**Eisteddwn ar gychwyn y bregeth**

## **Pregeth**

**Esgob Cynorthwyol Bangor**

Y Gwir Barchg Mary Stallard

**Ar derfyn y bregeth, codwn ar ein traed i ganu**



Grace and peace be with you.

**And keep you in the love of Christ.**

Listen to the Holy Gospel according to ✠ Saint Luke.

**Glory to you, O Christ.**

**A**t that time: A lawyer stood up to test Jesus. "Teacher," he said, "what must I do to inherit eternal life?" Jesus said to him, "What is written in the law? What do you read there?" He answered, "'You shall love the Holy One your God with all your heart, and with all your soul, and with all your strength, and with all your mind; and your neighbour as yourself.'" And Jesus said to him, "You have given the right answer; do this, and you will live." But wanting to justify himself, he asked Jesus, "And who is my neighbour?" Jesus replied, "A man was going down from Jerusalem to Jericho, and fell into the hands of robbers, who stripped him, beat him, and went away, leaving him half dead. Now by chance a priest was going down that road; and when he saw him, he passed by on the other side. So likewise a Levite, when he came to the place and saw him, passed by on the other side. But a Samaritan while travelling came near him; and when he saw him, he was moved with pity. He went to him and bandaged his wounds, having poured oil and wine on them. Then he put him on his own animal, brought him to an inn, and took care of him. The next day he took out two denarii, gave them to the innkeeper, and said, 'Take care of him; and when I come back, I will repay you whatever more you spend.' Which of these three, do you think, was a neighbour to the man who fell into the hands of the robbers?" He said, "The one who showed him mercy." Jesus said to him, "Go and do likewise."

This is the Gospel of our Saviour.

**Praise to you, O Christ.**

**Luke 10:25-37**

We sit at the start of the sermon

**Sermon**

**The Assistant Bishop of Bangor**

The Rt Revd Mary Stallard

At the end of the sermon we stand to sing

## Emyn

**I**esu, cyfaill f'enaïd cu,  
gad i mi i'th fynwes ffoi.  
tra bo'r dyfroedd ar bob tu,  
a'r tymhestloedd yn crynhoi.  
Cudd fi, O fy ngheidwad, cudd,  
oni chilio'r storom gref;  
yn arweinydd imi bydd  
nes im ddod i borthladd nef.

Other refuge have I none,  
hangs my helpless soul on thee;  
leave, ah, leave me not alone,  
still support and comfort me.  
All my trust on thee is stayed,  
all my help from thee I bring;  
cover my defenceless head  
with the shadow of thy wing.

Plenteous grace with thee is found,  
grace to cover all my sin;  
let the healing streams abound,  
make and keep me pure within.  
Thou of life the fountain art,  
freely let me take of thee;  
spring thou up within my heart,  
rise to all eternity.

### **Geiriau**

Charles Wesley (1707-1788)

### **Cyfieithiad**

Y Geirgrawn (1796)

### **Cerddoriaeth | "Aberystwyth"**

Joseph Parry (1841-1903)

## Hymn

**I**esu, cyfaill f'enaïd cu,  
gad i mi i'th fynwes ffoi.  
tra bo'r dyfroedd ar bob tu,  
a'r tymhestloedd yn crynhoi.  
Cudd fi, O fy ngheidwad, cudd,  
oni chilio'r storom gref;  
yn arweinydd imi bydd  
nes im ddod i borthladd nef.

Other refuge have I none,  
hangs my helpless soul on thee;  
leave, ah, leave me not alone,  
still support and comfort me.  
All my trust on thee is stayed,  
all my help from thee I bring;  
cover my defenceless head  
with the shadow of thy wing.

Plenteous grace with thee is found,  
grace to cover all my sin;  
let the healing streams abound,  
make and keep me pure within.  
Thou of life the fountain art,  
freely let me take of thee;  
spring thou up within my heart,  
rise to all eternity.

**Words**

Charles Wesley (1707-1788)


**Translation**

Y Geirgrawn (1796)

**Music | "Aberystwyth"**

Joseph Parry (1841-1903)

# Gweddi



## Eisteddwn

## Ymbiliau

### **Davina Carey-Evans**

Uchel-Siryf Gwynedd

### **Karen Andrew**

Cadeirydd Mainc Gorllewin Morgannwg

Gweddiwn dros bawb sy'n gweinyddu cyfiawnder yn y deyrnas hon; dros yr Arglwydd Ganghellor ac Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr, dros holl farnwyr a barnwriaeth y tribiwnlysoedd, ynadon, rheithwyr ac ombwdsmyrn; dros glercod a swyddogion y llysoedd, dros fargyfreithwyr, cyfreithwyr, gweithredwyr siartredig cyfreithiol, a phawb sy'n astudio neu'n arbenigo yn y gyfraith, neu sy'n gweithio ym maes y gyfraith; am iddynt arfer gostyngaidrwydd a barn gadarn, fel y cynhelir Rheolaeth y Gyfraith.

O Dduw, yn dy drugaredd,

### **Gwrando ein gweddi.**

Gweddiwn dros yr heddlu, y gwasanaeth prawf a'r carchardai, a phawb sy'n cynnal trefn yn ein gwlad; fel y gall ein cenedl, drwy eu hymdrechion a'u haberth hwy, fyw mewn heddwch a diogelwch.


O Dduw, yn dy drugaredd,

### **Gwrando ein gweddi.**

Gweddiwn dros ein cyd-genhedloedd yn y Gymanwlad, dros bawb ledled y byd sy'n llunio ac yn gweinyddu cyfraith mewn cenedloedd a chyrff a lywodraethir gan Reolaeth y Gyfraith, a thros sefydlu'r Reolaeth honno rhwng cenedloedd; fel y byddo ffyrdd cyfiawnder a thangnefedd yn hysbys yn ein hoes ni.

O Dduw, yn dy drugaredd,

### **Gwrando ein gweddi.**



# Prayer

We sit

## Intercessions

**Davina Carey-Evans**

The High Sheriff of Gwynedd

**Karen Andrew**

The Bench Chair of West Glamorgan

Let us pray for all who administer justice in this realm; for the Lord Chancellor and the Lord Chief Justice of England and Wales; for all judges and the tribunals judiciary, magistrates, jurors, and ombudsmen; for clerks and court officials; for barristers, solicitors, chartered legal executives, and all whose profession, study or expertise is the law; that humility and sound judgment may abide, and that the Rule of Law be upheld.

God, in your mercy,

**Hear our prayer.**

Let us pray for the police, the probation and prison services, and all those who sustain order in our land; that by their endeavours and sacrifices our nations may live in tranquillity and security.

God, in your mercy,

**Hear our prayer.**

Let us pray for our fellow nations in the Commonwealth, for all those across the world who make and administer law in nations and bodies governed by the Rule of Law, and for the establishment of that Rule between nations; that the ways of justice and peace may be known in our time.

God, in your mercy,

**Hear our prayer.**

Gweddïwn dros Uchel-Siryfion Cymru, a thros bawb sy'n rhoi o'u hunain i wasanaethu eu cymunedau mewn amser o angen ac i unioni anghyfiawnder; fel y byddo gobaith a phwrpas newydd yn ffrwyth ymdrechu ar y cyd.

O Dduw, yn dy drugaredd,

**Gwrando ein gweddi.**

## Motét

Os justi meditabitur sapientiam: et lingua ejus loquetur judicium. Lex Dei ejus in corde ipsius: et non supplantabuntur gressus ejus. Alleluia. Inveni David servum meum, oleo sancto meo unxi eum. Alleluia.

### Cyfieithiad

*Y mae genau'r cyfiawn yn llefaru doethineb, a'i dafod yn mynegi barn. Y mae cyfraith ei Dduw yn ei galon, ac nid yw ei gamau'n methu. Haleliwia. Cefais Ddafydd, fy ngwas, a'i eneinio â'm holew sanctaidd. Haleliwia.*

### Geiriau

Salmau 37:30-31; 89:20

### Cerddoriaeth

Anton Bruckner (1824-1896)

Let us pray for the High Sheriffs of Wales, and for all those who give of themselves to serve their communities in time of need and to correct injustice; that new hope and purpose may be the fruit of common endeavour.

God, in your mercy,

**Hear our prayer.**

## Motet

Os justi meditabitur sapientiam: et lingua ejus loquetur judicium. Lex Dei ejus in corde ipsius: et non supplantabuntur gressus ejus. Alleluia. Inveni David servum meum, oleo sancto meo unxi eum. Alleluia.

### **Translation**

*The mouth of the righteous utters wisdom, and their tongue speaks what is right. The law of their God is in their heart, and their footsteps shall not falter. Alleluia. I have found David my servant; with my holy oil have I anointed him. Alleluia.*

### **Words**

Psalms 37:30-31; 89:20

### **Music**

Anton Bruckner (1824-1896)

## Gweddi Gasgl

### Is-Ddeon Cadeirlan Deiniol Sant

Canon Siôn B. E. Rhys Evans

**O**Dduw, sydd Farnwr cyfiawn a thrugarog pawb, edrych o'th nef, ni a atolygwn i ti, ar dy gyfryw weision hyn, sydd wedi eu gosod i weinyddu cyfiawnder yn y wlad hon. Caniatâ iddynt dy Lân Ysbryd, Ysbryd uniondeb, Ysbryd dirnadaeth, ac Ysbryd cariad, fel y cyflawnont yn eofn, yn bwyllog, ac yn drugarog eu dyletswyddau cysegredig, er daioni dy bobl a gogoniant dy enw; trwy Iesu Grist ein Gwardwr.

**Amen.**

**Codwn ar ein traed i ganu**



## Collect

### **The Sub-Dean of Saint Deiniol's Cathedral**

Canon Siôn B. E. Rhys Evans

**O** God, the just and merciful Judge of all, look down from heaven, we beseech you, on these your servants, who are set to minister justice in this land. Grant unto them your Holy Spirit, the Spirit of uprightness, the Spirit of discernment, and the Spirit of love, that they may boldly, discreetly, and mercifully fulfil their sacred duties, to the good of thy people and the glory of thy name; through Jesus Christ our Saviour. Amen.

**Amen.**

*We stand to sing*

## Emyn

**G**uide me, O thou great Redeemer,  
pilgrim through this barren land;  
I am weak, but thou art mighty,  
hold me with thy powerful hand:

Bread of heaven, Bread of heaven,  
feed me till I want no more;  
feed me till I want no more.

Colofn dân rho'r nos i'm harwain,  
a rho golofn niwl y dydd;  
dal fi pan fwy'n teithio'r manau  
geirwon yn y ffordd y sydd;  
rho im fanna, rho im fanna  
fel na bwyf yn llwfwrhau,  
fel na bwyf yn llwfwrhau.

Agor y ffynhonnau melys  
sydd yn tarddu o'r graig i maes;  
'r hyd yr anial mawr canlyned  
afon iachawdwriaeth gras;  
rho im hynny, rho i'm hynny:  
dim i mi ond dy fwynhau,  
dim i mi ond dy fwynhau.

When I tread the verge of Jordan,  
bid my anxious fears subside;  
death of death, and hell's destruction  
land me safe on Canaan's side:  
songs of praises, songs of praises  
I will ever give to thee,  
I will ever give to thee.

### **Geiriau**

William Williams, Pantycelyn (1717-1791)

### **Cyfieithiad**

Peter Williams (1722-1796)

### **Cerddoriaeth | "Cwm Rhondda"**

John Hughes (1873-1932)

## Hymn

**G**uide me, O thou great Redeemer,  
pilgrim through this barren land;  
I am weak, but thou art mighty,  
hold me with thy powerful hand:

Bread of heaven, Bread of heaven,  
feed me till I want no more;  
feed me till I want no more.

Colofn dân rho'r nos i'm harwain,  
a rho golofn niwl y dydd;  
dal fi pan fwy'n teithio'r manau  
geirwon yn y ffordd y sydd;  
rho im fanna, rho im fanna  
fel na bwyf yn llwfwrhau,  
fel na bwyf yn llwfwrhau.

Agor y ffynhonnau melys  
sydd yn tarddu o'r graig i maes;  
'r hyd yr anial mawr canlyned  
afon iachawdwriaeth gras;  
rho im hynny, rho i'm hynny:  
dim i mi ond dy fwynhau,  
dim i mi ond dy fwynhau.

When I tread the verge of Jordan,  
bid my anxious fears subside;  
death of death, and hell's destruction  
land me safe on Canaan's side:  
songs of praises, songs of praises  
I will ever give to thee,  
I will ever give to thee.

### **Words**

William Williams, Pantycelyn (1717-1791)


### **Translation**

Peter Williams (1722-1796)

### **Music | "Cwm Rhondda"**

John Hughes (1873-1932)

# Ymadael



Parhawn ar ein traed

## Bendith

**Esgob Cynorthwyol Bangor**  
Y Gwir Barchg Mary Stallard

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Daw'n cymorth yn Enw Duw.

**A wnaeth nef a daear.**


Bendigedig fyddo Enw Duw.

**Yn awr ac am byth.**

**R**hodded Dduw i'r bywiol ras,  
i'r ymadawedig orffwys,  
i'r Eglwys, Y Brenin a'n cenhedloedd  
undod a hedd,  
ac i ninnau a holl weision Duw fywyd tragywyddol;  
a bendith Duw hollalluog,  
y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân,  
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

**Amen.**

Parhawn ar ein traed



# Departing

We remain standing

## Blessing

**The Assistant Bishop of Bangor**

The Rt Revd Mary Stallard

Grace and peace be with you.

**And keep you in the love of Christ.**

Our help is in the Name of God.

**Who has made heaven and earth.**

Blessed be the Name of God.

**Now and for ever.**

**G**od grant to the living grace,  
to the departed rest,  
to the Church, The King and our nations  
unity and concord,  
and to us and all God's servants life everlasting;  
and the blessing of God almighty,  
the Father, ✠ the Son, and the Holy Spirit,  
be among you and remain with you always.

**Amen.**

We remain standing

## Anthemau Cenedlaethol

**M**ae hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi,  
gwlad beirdd a chantorion, enwogion o fri;  
ei gwrol ryfelwyr, gwladgarwyr tra mad,  
dros ryddid collasant eu gwaed.

Gwlad, gwlad,  
pleidiol wyf i'm gwlad.  
Tra môr yn fur i'r bur hoff bau,  
O bydded i'r hen iaith barhau.

**G**od save our gracious King,  
long live our noble King,  
God save The King;  
send him victorious,  
happy and glorious,  
long to reign over us;  
God save The King.

**Parhawn ar ein traed hyd nes i'r Esgob ymadael; yna eisteddwn neu ymadael**

Offrymddarn ar yr organ  
"Diweddglo" o Symffoni Rhif 1, Louis Vierne (1870-1937)  
Organydd | Ei Anrhydedd y Barnwr Timothy Petts

## National Anthems

**M**ae hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi,  
gwlad beirdd a chantorion, enwogion o fri;  
ei gwrol ryfelwyr, gwladgarwyr tra mad,  
dros ryddid collasant eu gwaed.

Gwlad, gwlad,  
pleidiol wyf i'm gwlad.  
Tra môr yn fur i'r bur hoff bau,  
O bydded i'r hen iaith barhau.

**G**od save our gracious King,  
long live our noble King,  
God save The King;  
send him victorious,  
happy and glorious,  
long to reign over us;  
God save The King.

*We remain standing until the Bishop has departed; we then sit or depart*

**Organ voluntary**

**"Finale" from Symphony No 1, Louis Vierne (1870-1937)**

**Organist | His Honour Judge Timothy Petts**

# Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol Deiniol Sant ym Mangor The Cathedral & Metropolitan Church of Saint Deiniol in Bangor

Esgob ac Archesgob Cymru  
Bishop and Archbishop of Wales  
**Y Parchediacaf | The Most Revd  
Andrew T. G. John**

Is-Ddeon | Sub-Dean  
**Canon Siôn B. E. Rhys Evans**  
sionrhys-evans@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon dros Fywyd Cynulleidfaol  
Canon for Congregational Life  
**Canon Tracy Jones**  
tracyjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cyfarwyddwr Cerdd | Director of Music  
**Joe Cooper**  
joecooper@eglwysyngnghymru.org.uk

Organydd | Organist  
**Martin Brown**  
martinbrown@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinidog Teulu | Family Minister  
**Naomi Wood**  
naomiwood@eglwysyngnghymru.org.uk

Cwstos | Custos  
**Simon Taylor**  
simontaylor@eglwysyngnghymru.org.uk

Trysorydd | Treasurer  
**Kelly Edwards**  
kellyedwards@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinyddwr Litwrgi  
Liturgy Administrator  
**Sam Jones**  
samjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Rheolwr Prosiect Cadwraeth a Datblygu  
Conservation & Development Project  
Manager  
**Simon Ogdon**  
simonogdon@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Emeritws | Canon Emeritus  
**Canon Angela Williams**

Aelodau'r Coleg Offeiriadol  
Members of the College of Priests  
**Y Parchg Ddr | The Revd Dr John Prysor-  
Jones, y Tra Pharchg Athro | the Very Revd  
Prof. Gordon McPhate, y Parchg | the Revd  
Peter Kaye**

Darllynydd | Reader  
**Elma Taylor**

Pensaer y Gadeirlan | Cathedral Architect  
**Simon Malam**

# Cabidwl y Gadeirlan Cathedral Chapter

Clerc y Cabidwl | Chapter Clerk  
**Robert Jones**  
robertjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Esgob Cynorthwyol ac Archddiacon Bangor |  
Assistant Bishop & Archdeacon of Bangor  
**Y Gwir Barchg | The Rt Revd Mary Stallard**

Archddiacon Meirionnydd  
Archdeacon of Meirionnydd  
**Yr Hyb. | The Ven. Andrew Carroll Jones**

Archddiacon Ynys Môn a Phrebendari  
Llanfair | Archdeacon of Anglesey &  
Prebendary of Llanfair  
**Yr Hyb. | The Ven. John Harvey**

Prebendari Penmynydd  
Prebendary of Penmynydd  
**Canon Dylan Williams**

Canon Drysorydd | Canon Treasurer  
**Canon Siôn B. E. Rhys Evans**

Canon Ganghellor | Canon Chancellor  
**Canon Emlyn Cadwaladr Williams**

Canon Bencantor | Canon Precentor  
**Canon Robert Townsend**

Canon Primus  
**Canon Tracy Jones**

Canon Secundus  
**Canon David Thomas Morris**

Canon Tertius  
**Canon Kim Williams**

Canon Quintus  
**Canon Alan Gyle**

Canon Mygedol | Honorary Canon  
**Canon Jane Coutts**

Canon Mygedol | Honorary Canon  
**Canon Janet Gough**

Canon Mygedol | Honorary Canon  
**Canon Nick Golding**

**Yn ogystal â'r rhai a enwir yma, caiff bywyd  
y Gadeirlan ei gynnal gan stiwardiaid,  
aelodau'r Côr a'u teuluoedd, gweision bwrdd  
yr allor, trefnwyr blodau, tîm y Banc Bwyd,  
cydweithwyr Tîm Deiniol, a haelioni llawer o  
rai eraill.**

In addition to those named here, the life of  
the Cathedral is sustained by stewards, Choir  
members and their families, servers, the  
Foodbank team, flower arrangers, colleagues  
from Tîm Deiniol, and the generosity of  
many others.